

ADRODDIAD YMCHWIL

Barn Busnesau Cymru ynglŷn ag Ailgylchu Eitemau Trydanol Gwasttraff Bach 2025

Paratowyd ar gyfer:
Llywodraeth Cymru



Beaufort Research

2 Plas yr Amgueddfa

Caerdydd

CF10 3BG

029 2037 8565

enquiries@beaufortresearch.co.uk

beaufortresearch.co.uk



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Manylion cyswllt

Cyswllt yr Asiantaeth: Owen Knight

Prosiect: B02530-3

Dyddiad: Chwefror 2026

Telerau'r contract

Oni chytunwyd yn wahanol, erys yr hawlfraint yng nghanfyddiadau'r astudiaeth hon yn eiddo i Beaufort Research Ltd ac ni ellir eu dyfynnu, eu cyhoeddi na'u hatgynhyrchu heb gymeradwyaeth y cwmni ymlaen llaw.

Dim ond ar sail anghywirdeb neu gamgyflead y bydd cymeradwyaeth i ddyfynnu neu gyhoeddi'n cael ei gwrthod.

Wrth gyhoeddi unrhyw ganfyddiadau gyda chymeradwyaeth, rhaid nodi: Beaufort Research Ltd fel y darparwr, maint y sampl a dyddiadau'r gwaith maes.

© Beaufort Research Ltd 2026



Cynhaliwyd y prosiect hwn yn unol ag ISO20252

Tabl y Cynnwys

1.	Cyflwyniad ac amcanion	3
2.	Methodoleg.....	3
3.	Canfyddiadau'r Ymchwil	6
3.1	Ymddygiad Ailgylchu	6
3.2	Ymwybyddiaeth a gwybodaeth am newidiadau i'r gyfraith.....	7
3.3	Barn ynglŷn â'r newid yn y gyfraith	8
3.4	Lefelau o ran pa mor wybodus a pharod oedd BBChau	11
3.5	Ymwybyddiaeth o gyfathrebu.....	12
4.	Atodiad: Cwestiynau Ymchwil Hydref 2025	14

1. Cyflwyniad ac amcanion

Ym mis Ebrill 2024 fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru deddfwriaeth sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r holl weithleoedd yng Nghymru wahanu eu deunyddiau ailgylchadwy mewn ffordd debyg i'r rhan fwyaf o aelwydydd.

O fis Ebrill 2026, bydd hi hefyd yn ofynnol i'r holl weithleoedd wahanu eitemau trydanol gwastraff bach yn barod i'w hailgylchu. Mae eitemau trydanol gwastraff bach yn golygu unrhyw eitem sydd â phlwg, batri neu gebl, ac nad yw'n hirach na 50cm ar unrhyw ochr, er enghraifft tegell neu ffôn symudol. Mae'r deddfau wedi'u bwriadu i gynyddu swm ac ansawdd y gwastraff a ailgylchir yng Nghymru.

Fe wnaeth Beaufort archwilio ymwybyddiaeth busnesau o'r newid deddfwriaethol a'u hagweddau tuag ato, cyn ei roi ar waith ym mis Ebrill 2023 ac yn fuan ar ôl ei gyflwyno ym mis Ebrill 2024. Rhoddwyd comisiwn i Beaufort eto yn 2025 i sefydlu mesurau sylfaenol o ymwybyddiaeth o'r gofyniad ychwanegol i wahanu eitemau trydanol gwastraff bach o fis Ebrill 2026 a'u hagweddau tuag at y gofyniad hwnnw. Cafodd eu hatgof o'r ymgyrch hysbysebu ei fesur yn yr arolwg hefyd.

2. Methodoleg

Cynhaliwyd arolwg dros y ffôn gyda sampl o 504 o fusnesau bach a chanolig (BBCh) ledled Cymru. Gofynnwyd cwestiynau'r arolwg fel rhan o Omnibws Busnes Cymru Beaufort¹. Roedd methodoleg a dull samplu'r arolwg, gan gynnwys cwtâu a phwysoli, yr un fath ag arolygon blaenorol yn archwilio ymwybyddiaeth busnesau o'r newid deddfwriaethol gwreiddiol yn 2024 a'u hagweddau tuag ato.

Mae Arolwg Omnibws Busnes Cymru'n defnyddio samplu cwota Market Location cyfrannol (nid hap-samplu) i adlewyrchu poblogaeth busnesau BBCh yng Nghymru. Felly, mae unrhyw ganfyddiadau yn yr arolwg hwn yn adlewyrchu barn y sampl a dylid cymryd gofal wrth drosi unrhyw ganfyddiadau'n rhai ar gyfer y boblogaeth busnes BBCh ehangach yng Nghymru.

Ar ben hynny, dylai unrhyw newidiadau mewn ymatebion rhwng tonnau'r arolwg gael eu trin â gofal hefyd. Mae'r newidiadau'n adlewyrchu'r

¹ [Omnibws Busnes - BeaufortResearch](#)

gwahaniaeth mewn ymwybyddiaeth ac agweddau rhwng y ddwy sampl yn hytrach nag unrhyw newidiadau pendant yn y boblogaeth busnesau BBCh yng Nghymru.

Cafodd sampl yr arolwg ei dylunio fel ei bod yn adlewyrchu nodweddion sefydliadau busnes BBCh sydd wedi'u lleoli yng Nghymru o ran mathau o weithgarwch busnes, maint busnesau (o ran nifer y cyflogeion) a gwasgariad rhanbarthol. Cafodd sefydliadau busnes eu hadnabod trwy berchnogaeth ar linell ffôn busnes.

Diffiniwyd "busnesau" gan ddefnyddio Dosbarthiad Diwydiannol Safonol y DU (2007) fel a ganlyn:

Tabl 1 – Gweithgareddau Busnes

Gweithgareddau Busnes sydd wedi'u cynnwys	Categori DDS
<i>Amaethyddiaeth, Pysgota, Mwyngloddio a Chyfleustodau</i>	A, B, D, E
<i>Gweithgynhyrchu</i>	C
<i>Adeiladu, Trafnidiaeth/cyfathrebu</i>	F, H, J (61 yn unig)
<i>Cyfanwerthu a Manwerthu</i>	G
<i>Cyllid, Eiddo Tiriog/gweithgareddau busnes</i>	J (62, 63 yn unig), K, L, M, N
<i>Gwestai, Bwytaï a gwasanaethau eraill</i>	I, J (58, 59, 60 yn unig), R, S (95, 96 yn unig)

Cafodd categorïau O (Gweinyddiaeth gyhoeddus/amddiffyn), P (Addysg), Q (Iechyd/Gwaith Cymdeithasol), S (94 yn unig: Sefydliadau aelodaeth), T (Aelwydydd preifat) ac U (Sefydliadau alldiriogaethol) eu hepgor o'r arolwg, i sicrhau bod y sampl yn cynnwys busnesau yn y sector preifat yn unig, gan gynnal cysondeb ag â'r arolygon blaenorol.

Cafodd BBChau eu diffinio fel busnesau â hyd at 250 o gyflogeion (amser llawn neu ran-amser) yn y lleoliad y cysylltwyd ag ef, ac fe gafodd ymatebwyr cymwys eu diffinio fel y Rheolwr, Perchennog, Rheolwr Gyfarwyddwr neu uwch reolwr arall.

Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau am faint busnesau, wedi'u categoreiddio yn ôl trosiant blyneddol fel a ganlyn: llai na £100k, rhwng £101k a £500k, a thros £501k. Roedd hefyd yn categoreiddio busnesau yn seiliedig ar nifer y cyflogeion: un cyflogai, 2-9 cyflogai, a 10 cyflogai neu fwy.

Dewiswyd sampl o fusnesau ar hap gan Market Location², cwmni data a marchnata yn y DU sy'n arbenigo mewn darparu data o ansawdd da am

² [Market Location](#)

busnesau. Wedyn cysylltwyd ar hap â busnesau ym mhob grŵp gweithgarwch a rhanbarth ac fe gyfwelwyd â hwy nes bod y targedau o ran cwota wedi cael eu cyrraedd. Gosodwyd cwotâu sy'n cydgloi ar weithgarwch a maint busnesau (o ran nifer y cyflogeion) o fewn rhanbarth yn seiliedig ar nifer y busnesau sy'n masnachu'n weithredol yng Nghymru a ddarparwyd gan Market Location.

Mae cwestiynau'r arolwg wedi'u cynnwys yn yr Atodiad. Roedd yr holiadur ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg yn ôl dewis y cyfranogwr. Roedd yr holiadur yn cynnwys cwestiynau caeëdig a phenagored (testun rhydd). Cafodd rhai cwestiynau eu hailadrodd o donnau blaenorol yr arolwg i'w gwneud yn bosibl cymharu dros amser, tra bo eraill wedi'u cynnwys yn benodol ar gyfer yr arolwg sylfaenol hwn. Yn ystod y cam dadansoddi, cafodd ymatebion i gwestiynau penagored eu codio'n systematig a'u categorïddio yn ôl themâu, gan ei gwneud yn bosibl cael mesuriad meintiol o'r ymatebion.

Ar gyfer yr arolwg sylfaenol hwn fe gasglwyd 504 o ymatebion i'r arolwg rhwng 29 Medi ac 14 Tachwedd 2025.

Mae tabliadau data llawn o'r arolwg wedi cael eu darparu ar gyfer Llywodraeth Cymru mewn adroddiad technegol ar wahân.

3. Canfyddiadau'r Ymchwil


3.1 Ymddygiad Ailgylchu

Fe wnaeth y cwestiwn cyntaf ganfod a oedd BBChau a arolygwyd yn gwahanu deunyddiau ailgylchadwy oddi wrth eu gwastraff cyffredinol ar adeg yr arolwg.

Ym mis Hydref 2025, dywedodd bron i 8 ymhob 10 BBCh yng Nghymru (80%) a arolygwyd eu bod yn ailgylchu popeth y gallant (gweler ffigur 1) – ychydig yn llai nag a ddywedodd eu bod yn gwneud hynny ym mis Mehefin 2025 (86%), ond cynnydd o'i gymharu ag oddeutu 6 ymhob 10 (62%) ers mis Ebrill 2023.

Dywedodd ychydig yn llai nag un ymhob deg o'r rhai a arolygwyd ym mis Hydref 2025 (9%) nad oeddent yn ailgylchu o gwbl, serch hynny.

Ffigur 1: A yw eich busnes neu sefydliad yn gwahanu deunyddiau ailgylchadwy oddi wrth ei wastraff cyffredinol ar hyn o bryd? (%)



Sail: yr holl ymatebwyr (Ebrill 2023 = 503, Ebrill 2024 = 502, Hydref 2024 = 500, Mehefin 2025 = 503, Hydref 2025 = 504).

Ym mis Hydref 2025, roedd sefydliadau llai, yn seiliedig ar nifer y cyflogeion, yn llai tebygol o ailgylchu popeth posibl, gyda 74% o'r rhai a arolygwyd â dim ond 1 cyflogai'n gwneud hynny, o'i gymharu ag 89% o'r rhai â dau gyflogai neu fwy.


Yr ymatebwyr a oedd leiaf tebygol o ailgylchu popeth posibl ym mis Hydref 2025 oedd y rhai yn y sectorau adeiladu, trafniadaeth/cyfathrebu (68% yn gwneud hynny) ac amaethyddiaeth, pysgota, mwyngloddio a chyfleustodau (74%), a'r BBChau a arolygwyd yn y sector gwestai a gwasanaethau eraill (90%), busnesau gweithgynhyrchu (81%), a busnesau cyfanwerthu a manwerthu (80%) oedd fwyaf tebygol o wneud hynny.

3.2 Ymwybyddiaeth a gwybodaeth am newidiadau i'r gyfraith

Fe gynyddodd ymwybyddiaeth ddigymell o newidiadau i'r ddeddfwriaeth ailgylchu ar gyfer gweithleoedd yng Nghymru ymhlith BBChau Cymru a arolygwyd yn sylweddol o 13% ym mis Ebrill 2023 (cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth) i 85% ym mis Ebrill 2024 ac 84% ym mis Hydref 2024. Erbyn mis Mehefin 2025, roedd ymwybyddiaeth o newidiadau i'r gyfraith yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi gostwng i 69%, cyn cynyddu eto i bron i 8 ymhob 10 (79%) yn yr arolwg diweddaraf ym mis Hydref 2025.

Ym mis Hydref 2025, cafodd ymatebwyr eu cynorthwyo ag eglurhad o'r newid yn y gyfraith, a'r gofyniad ychwanegol i wahanu eitemau trydanol gwastraff bach yn barod i'w hailgylchu o fis Ebrill 2026.³ O gael eu cynorthwyo â'r eglurhad hwn, roedd 3 ymhob 10 (32%) o'r BBChau a arolygwyd yng Nghymru wedi clywed am y gofyniad ychwanegol i wahanu eitemau trydanol gwastraff bach yn barod i'w hailgylchu.

Ffigur 2: Ymwybyddiaeth o'r gofyniad ychwanegol i wahanu eitemau trydanol gwastraff bach yn barod i'w hailgylchu o fis Ebrill 2026. (Hydref 2025, %)



Sail: yr holl ymatebwyr (Hydref 2025 = 504).

³ Yr eglurhad a ddarparwyd: "Ym mis Ebrill 2024, fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r holl fusnesau yng Nghymru wahanu eu deunyddiau ailgylchadwy mewn ffordd debyg i'r rhan fwyaf o ddeiliaid tai. O fis Ebrill 2026, bydd hi hefyd yn ofynnol i'r holl weithleoedd wahanu eitemau trydanol gwastraff bach yn barod i'w hailgylchu. Mae eitemau trydanol gwastraff bach yn golygu unrhyw eitem sydd â phlwg, batri neu gebl, ac nad yw'n hirach na 50cm ar unrhyw ochr, er enghraifft tegell neu ffôn symudol."


Sefydliadau llai a arolygwyd (yn ôl trosiant) oedd leiaf tebygol o fod yn ymwybodol o'r gofyniad ychwanegol i wahanu eitemau trydanol gwastraff bach yn barod i'w hailgylchu o fis Ebrill 2026. Ymhlith busnesau a arolygwyd â throsiant o lai na £500k, roedd 31% wedi clywed am y gofyniad ychwanegol, o'i gymharu â 38% o'r rhai a arolygwyd â throsiant o fwy na £500k.

Gan adlewyrchu eu harferion ailgylchu, y rhai yn y sector gwestai a gwasanaethau eraill (39%), a busnesau gweithgynhyrchu (37%), oedd fwyaf tebygol o fod yn ymwybodol o'r gofyniad ychwanegol i wahanu eitemau trydanol gwastraff bach yn barod i'w hailgylchu. BBChau a arolygwyd yn y sector gwasanaethau cyllid a busnes (22%) a'r sector busnesau cyfanwerthu a manwerthu (30%) oedd leiaf tebygol o fod yn ymwybodol.

3.3 Barn ynglŷn â'r newid yn y gyfraith

Ym mis Hydref 2025, dywedodd 8 ymhob 10 (80%) o'r BBChau a arolygwyd eu bod o blaid y gofyniad i wahanu eitemau trydanol gwastraff bach yn barod i'w hailgylchu – roedd 30% 'yn gryf o blaid', tra bo cyfran fwy (50%) 'o blaid'. Roedd ychydig yn fwy nag 1 ymhob 10 (11%) yn erbyn.

Ffigur 3: I ba raddau yr oedd BBChau o blaid y gofyniad i wahanu eitemau trydanol gwastraff bach yn barod i'w hailgylchu (%)



Sail: yr holl ymatebwyr (Hydref 2025 = 504).

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd o blaid y gyfraith newydd pam eu bod o blaid y gyfraith newydd, ac fe ddarparon nhw ymatebion ar ffurf testun rhydd. Roedd y

prif resymau a roddwyd yn ymwneud â sylwadau cyffredinol am fod yn gefnogol i ailgylchu (a grybwyllwyd gan 57% o'r 401 o BBChau a oedd o blaid y gyfraith newydd) a manteision amgylcheddol (22%). Dangosir rhestr o'r prif resymau a roddwyd yn ffigur 4 isod.

Ffigur 4: Prif resymau dros fod o blaid y gyfraith newydd (yn ddigymell)	
	%⁴
Cefnogaeth Gyffredinol i Ailgylchu (e.e. mae ailgylchu'n dda, yn gwneud synnwyr a.y.b.)	57
Manteision Amgylcheddol (e.e. diogelu'r amgylchedd, cynaliadwyedd, lleihau ôl troed carbon)	22
Llai o Dirlenwi (e.e. osgoi tirlenwi, lleihau gwastraff, atal tipio anghyfreithlon)	8
Cyfrifoldeb Cymdeithasol (e.e. dyletswydd, dylai pawb ei wneud, cyfrifoldeb)	7
Adfer Adnoddau (e.e. ailddefnyddio deunyddiau, arbed adnoddau, adfer metelau)	4
Ethos Corfforaethol (e.e. cwmni gwyrdd, mae'n cyd-fynd â'n hethos, yn meddu ar achrediad B-Corp)	2
Pryderon ynghylch Diogelwch (e.e. perygl tân, peryglus yn y dwylo anghywir)	1
Sail: y rhai o blaid y gyfraith newydd - Hydref 2025 (401)	

I'r gwrthwyneb, pan ofynnwyd iddynt pam eu bod yn gwrthwynebu'r gyfraith newydd, roedd y prif bryderon a grybwyllwyd yn ddigymell yn ymwneud â baich y gost (27%), yr amser a'r ymdrech sy'n ofynnol, a sgeptigaeth ynglŷn ag effeithiolrwydd ailgylchu (20%). Dangosir y prif resymau eraill a roddwyd yn ffigur 5 isod:

Ffigur 5: Prif resymau dros wrthwynebu'r gyfraith newydd (yn ddigymell)	
	%⁵
Baich y Gost (e.e. costau ychwanegol biniau, casglu, cydymffurfio, neu weithrediadau busnes)	27
Amser ac Ymdrech (e.e. gwaith ychwanegol, trafferth, gwaith papur, neu anghyfleustra)	22
Sgeptigaeth ynghylch Effeithiolrwydd Ailgylchu (e.e. amheuan a yw ailgylchu'n cael ei wneud yn iawn neu ei fod yn ddi-fudd/ymarfer ticio blychau)	20
Egwyddor / Gwrthwynebu Gorchmynion (e.e. yn crybwyll anhoffter o gael eu gorfodi neu fod y Llywodraeth yn ymyrryd)	12

⁴ Gallai ymatebion gael eu haseinio i categorïau rhesymau lluosog²⁰

⁵ Gallai ymatebion gael eu haseinio i categorïau rhesymau lluosog¹²


Baich ar Fusnesau Bach (e.e. gormod o bwysau ar fusnesau bach, baich arall ar fusnesau)	9
Eisoes yn Gwneud Digon (e.e. yn ailgylchu digon, mae cwmni'n cael tâl am ei wneud yn barod)	8
Risg o Dipio Anghyfreithlon (e.e. bydd rheolau'n arwain at adael gwastraff yn anghyfreithlon)	5
Diffyg Cymhelliant / Dim Budd i Fusnes	4
Heriau o ran Logisteg (e.e. anhawster oherwydd lleoliad, cyfyngiadau cludiant, diffyg cyfleusterau)	3
Sail: y rhai sy'n gwrthwynebu'r gyfraith newydd - Hydref 2025 (59)	

3.4 Lefelau o ran pa mor wybodus a pharod oedd BBChau

Fe wnaeth yr arolwg hefyd archwilio pa mor wybodus oedd BBChau'n teimlo ynglŷn â'r camau gweithredu yr oedd angen iddynt eu cymryd i baratoi ar gyfer y gofyniad i wahanu eitemau trydanol gwastraff bach yn barod i'w hailgylchu a fydd yn dechrau ym mis Ebrill 2026.

Ym mis Hydref 2025, dywedodd hanner (50%) y BBChau a arolygwyd eu bod yn teimlo naill ai 'yn wybodus' (24%), neu 'yn weddol wybodus' (26%) ynglŷn â'r camau gweithredu sy'n ofynnol i baratoi. Nid oedd 45% yn teimlo'n wybodus.

Ffigur 6: Pa mor wybodus ydych chi'n teimlo ynglŷn â'r camau gweithredu y mae angen i'ch busnes eu cymryd i baratoi ar gyfer y gofyniad i wahanu eitemau trydanol gwastraff bach yn barod i'w hailgylchu a fydd yn dechrau ym mis Ebrill 2026? (%)




Sail: yr holl ymatebwyr (Hydref 2025 = 504).

Yn ôl sector, BBChau a arolygwyd yn y sector gwestai a gwasanaethau eraill oedd fwyaf tebygol o fod wedi teimlo'n wybodus, gyda 30% yn dweud hyn, gyda'r rhai yn y sector gweithgynhyrchu (28%) yn dilyn wedyn.

Pan ofynnwyd iddynt am eu parodrwydd ar gyfer y gofyniad i wahanu eitemau trydanol gwastraff bach yn barod i'w hailgylchu o fis Ebrill 2026, dywedodd 7 ymhob 10 (71%) o'r BBChau a arolygwyd eu bod yn teimlo naill ai'n barod 'iawn' neu'n 'weddol' barod ym mis Hydref 2025. Roedd 36% yn teimlo'n barod 'iawn', tra bo 35% yn teimlo'n 'weddol' barod. Dynododd mwy nag 1 ymhob 10 (13%) nad oeddent yn barod o gwbl.

Ffigur 7: Pa mor barod yw / oedd eich busnes neu sefydliad ar gyfer y gofyniad i wahanu eitemau trydanol gwastraff bach yn barod i'w hailgylchu o fis Ebrill 2026? (%)



Sail: yr holl ymatebwyr (Hydref 2025 = 504).

Yn ôl sector, BBChau yn y sector 'gwasanaethau cyllid a busnes' a'r sector 'amaethyddiaeth, pysgota, mwynogloddio a chyfleustodau' oedd fwyaf tebygol o fod wedi teimlo'n barod, gydag 80% a 79% o'r ymatebwyr yn y drefn honno o'r sectorau hyn yn dweud hyn, o'i gymharu â 62% o'r rhai yn y sector cyfanwerthu a manwerthu.

3.5 Ymwybyddiaeth o gyfathrebu

Fe wnaeth yr arolwg hefyd fesur ymwybyddiaeth o hysbysebu, cyfathrebu neu farchnata am y gofyniad newydd i wahanu eitemau trydanol gwastraff bach ac, os felly, ble'r oeddent wedi gweld hyn.

Ym mis Hydref 2025, roedd mwy nag 1 ymhob 10 (12%) o BBChau Cymru a arolygwyd wedi gweld neu glywed unrhyw gyfathrebu am y gofyniad ychwanegol yn ddiweddar.

Ymhlith y rhai a oedd wedi gweld neu glywed unrhyw gyfathrebu, prif ffynonellau'r ymwybyddiaeth oedd:

- Neges e-bost neu destun uniongyrchol (23%)
- Newyddion / rhaglen ar y teledu (21%)
- Gwybodaeth gan eu cludwr gwastraff (16%)

- Y cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook, Instagram, Twitter) (15%)
- Ar lafar gwlad (13%)
- Stori newyddion ar-lein (13%)
- Erthygl papur newydd / cylchgrawn (11%)

Sail: pawb a oedd yn ymwybodol o'r ymgyrch (Hydref 2025 = 58)

4. Atodiad: Cwestiynau Ymchwil Hydref 2025

- C1. A yw eich busnes neu sefydliad yn gwahanu deunyddiau ailgylchadwy oddi wrth ei wastraff cyffredinol ar hyn o bryd?**
Newidiwch drefn y raddfa rhwng cyfweiliadau

Ydym, rydym yn ailgylchu popeth y gallwn ni
Ydym, rydym yn ailgylchu rhai deunyddiau ond nid popeth
Nac ydym, dydyn ni ddim yn ailgylchu o gwbl

- C2. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw newidiadau i'r gyfraith yng Nghymru mewn perthynas ag ailgylchu ar gyfer gweithleoedd yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf?**

Ydw
Nac ydw
Ddim yn gwybod

- C3. Ym mis Ebrill 2024, fe gyflwynodd Llywodraeth Cymru ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r holl fusnesau yng Nghymru wahanu eu deunyddiau ailgylchadwy mewn ffordd debyg i'r rhan fwyaf o ddeiliaid tai.**

O fis Ebrill 2026, bydd hi hefyd yn ofynnol i'r holl weithleoedd wahanu eitemau trydanol gwastraff bach yn barod i'w hailgylchu. Mae eitemau trydanol gwastraff bach yn golygu unrhyw eitem sydd â phlwg, batri neu gebl, ac nad yw'n hirach na 50cm ar unrhyw ochr, er enghraifft tegell neu ffôn symudol.

Cyn heddiw, oeddech chi'n ymwybodol o'r gofyniad ychwanegol hwn?

Oeddwn
Nac oeddwn
Ddim yn gwybod

C4. Beth yw eich barn chi ynglŷn â'r gofyniad hwn i wahanu eitemau trydanol gwastraff bach yn barod i'w hailgylchu – ydych chi...?

Yn gryf o blaid
O blaid
Yn erbyn
Yn gryf yn erbyn
Dim barn
Ddim yn gwybod

C5a. Pam ydych chi'n dweud hynny [os o blaid]? Cofnodwch air am air

C5b. Pam ydych chi'n dweud hynny [os yn erbyn]? Cofnodwch air am air

GOFYNNWCH I BAWB

C6. Pa mor wybodus ydych chi'n teimlo ynglŷn â'r camau gweithredu y mae angen i'ch busnes eu cymryd i baratoi ar gyfer y gofyniad i wahanu eitemau trydanol gwastraff bach yn barod i'w hailgylchu a fydd yn dechrau ym mis Ebrill 2026? Darllenwch allan – trefn y raddfa i gael ei newid rhwng cyfsweliadau

- Rwy'n teimlo'n wybodus ynglŷn â'r hyn y mae angen i'm busnes ei wneud
- Rwy'n teimlo'n weddol wybodus ynglŷn â'r hyn y mae angen i'm busnes ei wneud
- Dydw i ddim yn teimlo'n wybodus ynglŷn â'r hyn y mae angen i'm busnes ei wneud
- Ddim yn gwybod

GOFYNNWCH I BAWB

C7. Pa mor barod yw eich busnes neu sefydliad ar gyfer y gofyniad i wahanu eitemau trydanol gwastraff bach yn barod i'w hailgylchu o fis Ebrill 2026? Darllenwch allan – trefn y raddfa i gael ei newid rhwng cyfsweliadau

- Yn barod iawn

- Yn weddol barod
- Ddim yn barod iawn
- Ddim yn barod o gwbl
- Ddim yn gwybod

C8. Ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw hysbysebu, cyfathrebu neu farchnata am y gofyniad ychwanegol hwn i ailgylchu eitemau trydanol bach yn ddiweddar?

Do
Naddo

GOFYNNWCH OS OEDDENT YN YMWHYBODOL O HYSBYSEBU/ CYFATHREBU/ MARCHNATA YN C8

C9. Ble welsoch chi neu glywoch chi'r hysbysebu, cyfathrebu neu farchnata yma? DARLLENWCH ALLAN – CODIWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL

Neges e-bost neu neges destun uniongyrchol
Gwybodaeth gan fy nghludwr gwastraff
Hysbyseb papur newydd / cylchgrawn
Erthygl papur newydd / cylchgrawn
Hysbyseb ar-lein
Stori newyddion ar-lein
Hysbysfyrddau a sgriniau digidol yn yr awyr agored
Poster
Y cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook, Instagram, Twitter)
Newyddion / rhaglen ar y teledu
Ar lafar gwlad

Arall (rhowch fanylion) _____
Ddim yn gwybod